Prosesu busnes yswiriant uniongyrchol fel canolwr

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â phrosesu busnes yswiriant uniongyrchol fel canolwr. Bydd eich gwaith yn cynnwys prosesu ceisiadau am yswiriant a gwneud y trefniadau terfynol ar gyfer hynny. Ar ôl i ddyfynbris gael ei dderbyn, cyflwynir manylion i'r tansgrifenwyr, ac fel canolwr, chi sy'n rheoli'r broses busnes newydd. Yna gwneir trefniadau i dalu'r premiwm a chyflwyno'r dogfennau polisi i'r cwsmer.

Bydd y safon hon yn addas i chi dim ond os ydych chi'n gweithio i ganolwr ac yn delio gyda busnes newydd uniongyrchol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Lleoli risgiau o fewn lefel gytunedig eich cyfrifoldeb, yr awdurdod a roddwyd gan y cwsmer a chanllawiau eich cyflogwr
2. Cyfeirio unrhyw sefyllfaoedd neu faterion y tu allan i lefel eich awdurdod at y bobl neu'r adrannau priodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Cyflwyno manylion i yswirwyr mewn modd a chan gadw at amserlen sy'n unol â gweithdrefnau sefydliadol
4. Hysbysu cwsmeriaid ynghylch y telerau a'r yswiriant a ddarperir, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
5. Prosesu cynigion ar gyfer busnes newydd a chasglu unrhyw wybodaeth a dogfennaeth ategol perthnasol sy'n ofynnol
6. Nodi a datrys unrhyw anghysondebau yn yr wybodaeth a ddarparwyd, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
7. Cadw gwybodaeth yn gyfrinachol, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
8. Prosesu taliadau'n gywir, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
9. Sicrhau bod y dogfennau yswirio yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn bodloni gofynion cyfreithiol a rheoliadol
10. Cyflwyno dogfennau yswiriant i gwsmeriaid, yn unol â pholisi eich cyflogwr
11. Llunio cofnodion cywir a chyflawn ar hyd y broses, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
12. Cydymffurfio â gofynion cydymffurfio cyfreithiol a rheoliadol, rheoliadau'r diwydiant, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Egwyddorion a rheoliadau yswiriant a chyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
2. Strwythur y farchnad yswiriant a rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol bartïon sy'n rhan ohoni sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
3. Gweithdrefnau gwasanaeth cwsmeriaid eich sefydliad, gan gynnwys y rhai ar gyfer delio gyda chwynion
4. Polisi a gweithdrefnau eich sefydliad ynghylch cyfathrebu â chwsmeriaid
5. Dulliau talu a gynigir gan eich sefydliad, gan gynnwys cyfleusterau credyd a rhandaliadau
6. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cysylltu â thansgrifenwyr
7. Y gweithdrefnau priodol ar gyfer atgyfeirio a chyngor
8. Cwmpas y polisi, y telerau a'r amodau sy'n berthnasol i'ch gwaith, gan gynnwys estyniadau neu gyfyngiadau safonol
9. Terfynau eich awdurdod a'r camau sy'n ofynnol pan fydd sefyllfa'n syrthio y tu allan i'r terfynau hynny
10. Systemau a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cyrchu, cofnodi a newid gwybodaeth
11. Yr wybodaeth a ddylai gael ei chyflenwi gan gleientiaid i'ch galluogi i brosesu busnes newydd
12. Nodweddion busnes newydd sy'n galw am ymchwilio gan yswirwyr
13. Ffynonellau gwybodaeth a chyngor
14. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer gwirio a chywiro polisïau a dogfenau cysylltiedig
15. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer delio gyda busnes newydd lle mae'r yswiriant yn dibynnu ar dderbyn amodau
16. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac er lles pennaf y cleient
2. Rydych yn arddangos dealltwriaeth o bobl eraill ac yn delio gyda nhw mewn modd proffesiynol
3. Rydych yn nodi anghenion gwybodaeth pobl eraill
4. Rydych yn defnyddio arddulliau cyfathrebu sy'n briodol ar gyfer gwahanol bobl a sefyllfaoedd
5. Rydych yn cyflawni tasgau gan roi sylw dyledus i bolisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

Prosesu busnes yswiriant uniongyrchol fel canolwr

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPGI11 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Yswiriant Cyffredinol |
| **Geiriau Allweddol** | Hawliad yswiriant; polisi yswiriant; polisïau; hawliad; hawlydd; setliad; wedi'i yswirio; heb ei yswirio; hysbysiad |